

Pecyn Gweithgareddau / Activity Pack

Y COBLYNNOD A'R CRYDD **THE ELVES AND THE SHOEMAKER**

Gan / by y Brodyr Grimm / The Brothers Grimm

Addasiad gan / Adaptation by Katherine Chandler

Cyfieithiad Cymraeg gan / Welsh Translation by Mererid Hopwood



CYNNWYS

TROSOLWG	Tudalen 3
BLE RYDYN NI'N BYW	Tudalen 4
BETH GOBLYN SYDD YN Y BOCS?	Tudalen 5
CLOC I'R COBLYNNOD	Tudalen 6
DANGOS DIOLCHGARWCH	Tudalen 8
SYNAU'R GWEITHDY	Tudalen 9
AM DRO I'R GORFFENNOL	Tudalen 10
SGIDIAU SMART	Tudalen 11
ESGIDIAU LLAWN CYMERIAD	Tudalen 12
YN ESGIDIAU RHYWUN ARALL	Tudalen 13
CLYMU CAREIAU	Tudalen 14
YMWELD A'R SHERMAN	Tudalen 15
HWYL CREADIGOL – GWEITHDY CREU ESGIDIAU	Tudalen 17

Mae gweithgaredd crefft gweithdy'r Crydd ar dudalen olaf y llyfryn yma. Bydden ni wrth ein boddau yn cael gweld eich gweithdai ar ôl i chi orffen. Gallwch rannu lluniau neu fideos o'ch gweithdai gyda ni yn y Sherman gyda'r hashnodau canlynol ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn i ni eu rhannu.

Dyma syniadau sut i dynnu sylw at waith eich plant ar-lein:

- Defnyddiwch dinsel, glanhawyr pibellau, papur sidan, papur crêp, gwlan disglair, a gwadau a lliwiau amrywiol yn eich model.
- Gallech ddefnyddio samplau o defnydd o siopau gwnïo, siopau defnydd, neu siopau adrannol, er mwyn ychwanegu gwahanol weadau.
- Gallech ddefnyddio paent dros ben o brosiectau DIY.
- Petai'n weithdy arbennig ar gyfer y Nadolig, pa liwiau / patrymau / gwadau fydddech chi'n eu defnyddio?

Ac yn olaf...

Cofiwch ei rannu gyda'r Sherman ar y cyfryngau cymdeithasol! Gallech hefyd ddod â llun neu ddarlun gyda chi pan fyddwch chi'n dod i weld y ddrama. Cofiwch eu rhoi i aelod o staff, a fydd yn eu rhoi i'r rheolwr llwyfan er mwyn i Theatr y Sherman eu rhannu.



@shermantheatreCardiff



@shermantheatre



@shermantheatre

#esgidiaubendibompom / #superduper shoes

Crëwyd gan Theatr y Sherman yn 2021. I gael gwybodaeth, cysylltwch â:
timothy.howe@shermantheatre.co.uk.

Tudalen 2 o 16

TROSOLWG

Lle bynnag byddwch chi'n defnyddio'r pecyn adnoddau yma – gartref, mewn grŵp chwarae, meithrinfa neu ystafell ddosbarth – mae modd ei ddefnyddio mewn unrhyw drefn, a gallwch ei addasu ar gyfer eich anghenion. Awgrymw'n eich bod yn defnyddio'r pecyn yma fel canllaw yn hytrach na llyfr atebion; gan ysgogi gweithgareddau bywiog a diddorol ar gyfer eich plant, sy'n cysylltu â'r profiad theatrig byw a'r byd o'u cwmpas. Yn yr adnodd yma, mae cyfres o weithgareddau gwahanol sy'n gweithio yn fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol ac sy'n trafod ystod o feysydd pwnc. Gobeithiwn y bydd cynnwys y pecyn yma'n rhoi cyfle i gefnogi ystod eang o ganlyniadau manteisiol, waeth ble mae'r dysgu'n digwydd.

DATGANIAD O FWRIAD DYSGU

Gyda chyflwyno cwricwlwm newydd Cymru, rydyn ni'n awyddus i gynnwys y pedwar diben yn ein gwaith gyda phobl ifanc er mwyn cefnogi eu dysgu o fewn y fframwaith a amlinellir gan Lywodraeth Cymru.

Drwy'r gweithgareddau yn y pecyn yma, ein gobaith yw gwella a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas nhw, a chynorthwyo â'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Rydyn ni'n ceisio cynnig profiadau dysgu sy'n meithrin dysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n gweld cyfleoedd i ddysgu yn eu bywydau bob dydd. At hynny, gobeithio y bydd y pecyn yma'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ehangach a dyfnach o'r byd o gwmpas ein pobl ifanc. Drwy hynny, bydd yn eu paratoi i fod yn ddinasyddion gwybodus i Gymru a'r byd drwy hyrwyddo unigolion egwyddorol a iach, sy'n barod i fod yn aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Yn gyffredinol, drwy gael mynediad at y celfyddydau a deall eu heffaith ar eu hunain a'u cymuned, gobeithiwn y byddan nhw'n dod yn unigolion â meddylfryd mentrus a chreadigol. Cyflawnir hyn drwy gyfres o gyfleoedd dysgu, ymatebion a thechnegau addysgu, gan gynnwys – ymhlith eraill – mapio meddwl, sgiliau llafar, gwrando, llythrennedd, cerddoriaeth, celf, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer addysg a thrafodaeth unigol a grŵp.

CASGLIAD

Yn gyffredinol, gobeithiwn y bydd y pecyn yma'n ddefnyddiol i chi wrth gefnogi datblygiad plant unigol, gan roi cyfle iddyn nhw ddatblygu eu barn a'u dealltwriaeth. Edrychwn ymlaen at gael clywed am eich profiadau gyda'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u creu.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r amser creadigol yma gyda'ch pobl ifanc!

YMWADIAD DOLENNI ALLANOL

Drwy'r adnodd mae dolenni at wefannau allanol. Er ein bod ni'n gwneud pob ymdrech i sierhau bod y dolenni yma'n gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol, ni all Theatr y Sherman gymryd cyfrifoldeb dros dudalennau sy'n cael eu cynnal gan ddarparwyr allanol.

Os byddwch chi'n dod o hyd i unrhyw ddolenni nad ydyn nhw'n gweithio, bydden ni'n ddiolchgar pe baech chi'n rhoi gwybod i ni.

Dylech nodi y gallai dolenni allanol o'r wefan yma gynnwys hysbysebion a deunydd o natur wleidyddol.

BLE RYDYN NI'N BYW

Mae'r coblynnod yn ymddangos yn y gweithdy drwy hud a lledrith, ond dydyn ni ddim yn gweld ble maen nhw'n byw.

Bydd yr ymarferion yma'n gofyn i'r plant ystyried ble gallai'r coblynnod fyw, pa fath o gartref allai fod ganddyn nhw, a siarad am eu cartrefi eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i wneud penderfyniadau am lefydd dychmygol, a chymharu a chyferbynnu amgylcheddau; penderfynu beth sydd ganddyn nhw'n gyffredin gyda'r Coblynnod, a beth sy'n wahanol.

Dechrau

1. Yn gyntaf, gofynnwch beth mae'r gair 'Tŷ' yn ei olygu i'r plant.
 1. Gallech gyflwyno hyn fel rhestr, map meddwl grŵp, neu drwy ofyn iddyn nhw ysgrifennu gair ar nodyn *post-it* cyn ei lynu ar y wal – efallai mewn amlinelliad tŷ.
2. Nawr, gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n gwybod beth yw enwau'r llefydd lle mae rhywun neu ryw beth arall yn byw – fel aderyn neu fochyn daear.

Cam ymhellach:

Gallech gyflwyno diffiniadau llawn ar gyfer y cartrefi yma, a thrafod y pethau sy'n debyg ac yn wahanol. Tŷ: adeilad mae pobl yn byw ynddo, sy'n cynnwys llawr gwaelod ac ail lawr.

Nyth: strwythur wedi'i wneud neu ei ddewis gan aderyn ar gyfer dodwy wyau a chysgodi'r ifanc.

Prif Ymarfer

Efallai y byddwch chi am rannu'r grŵp yn ddau a dynodi un o'r lleoliadau isod i bob hanner, gallen nhw weithio'n unigol neu fel tîm. Wedyn, gallan nhw rannu eu hymatebion ar lafar, yn ysgrifenedig neu drwy luniau.

3. Dechreuwch drwy ofyn i'r plant am eu tŷ. *Gofynnwch i'r dosbarth ganolbwyntio ar liwiau, siapiau a deunyddiau.* Faint o ddrysau? / Faint o ffenestri? / Faint o ystafelloedd? / Beth yw enwau'r ystafelloedd? / Disgrifiwch ble mae eich tŷ.
4. Nawr, anogwch y plant i ddychmygu tŷ'r Coblynnod. *Unwaith eto, gofynnwch i'r dosbarth ganolbwyntio ar liwiau, siapiau a deunyddiau.* Faint o ddrysau? / Faint o ffenestri? / Faint o ystafelloedd? / Beth yw enwau'r ystafelloedd? / Disgrifiwch ble mae tŷ'r Coblynnod.
5. Dewch â'r grŵp yn ôl at ei gilydd i ddechrau'r elfen cymharu a chyferbynnu. Awgrymwn eich bod chi'n rhannu'r plant yn barau (un o bob grŵp). Heriwch nhw i nodi'r canlynol o'u trafodaethau blaenorol:
 1. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng tŷ pobl a thŷ'r Coblynnod?
 2. Beth sy'n debyg rhwng tŷ pobl a thŷ'r Coblynnod?

Gallwch ofyn iddyn nhw ddangos y pethau tebyg a gwahanol mewn dau liw, er mwyn dangos y cyferbyniadau yn weledol. Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n teimlo'n wahanol neu'r un peth â'r Coblynnod.

Cam ymhellach:

Yn olaf, defnyddiwch Google Earth i gymharu a chyferbynnu'r amgylcheddau o gwmpas ble mae'r plant yn byw a ble mae'r Coblynnod yn byw. Anogwch y plant i ganolbwyntio ar ffactorau amgylcheddol, hynny yw Coed / Polion Lamp / Mannau Gwyrdd / Ffyrdd. Dychwelwch bob tro at yr iaith gymharu a chyferbynnu a gyflwynwyd uchod. Beth sydd ganddon ni'n gyffredin gyda'r Coblynnod, a beth sy'n wahanol?

Ystafell gyda golygfa

Yn olaf, gofynnwch i'r grŵp ddisgrifio beth maen nhw'n ei weld un ai o ffenest eu hystafell wely, neu'r olygfa ddychmygol o ffenest ystafell wely'r Coblynnod? *Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r ymarfer 'Lliwio' i wella defnydd y plant o iaith. Mae modd gwneud yr ymarfer yma mewn parau neu mewn un grŵp.*

Mae un person yn dechrau drwy ddisgrifio beth maen nhw'n ei weld. Pan fydd gwrandawr eisiau mwy o fanylion, byddan nhw'n dweud "Lliwia!" ac mae'n rhaid i'r disgrifydd fynd i fwy o fanylder. Rhywbeth tebyg i hyn: *Pan fydda i'n edrych drwy fy ffenestr "Lliwia!"*

Mae'r ffenestr yn frown ac mae ganddi ddolen aur. Rwy'n gallu gweld pwll dŵr...



BETH GOBLYN SYDD YN Y BOCS?

GWEITHGAREDD 2

Yn y Coblynnod a'r Crydd, sylweddoloni ni fod y coblyn ac Elsi yn gorachod caredig a hael sy'n helpu Clara a'r Crydd drwy greu ei hoff esgidiau erioed. I Clara, mae'r esgidiau yma'n teimlo fel anrhegion gwyh. Mae gweithredoedd anhunanol a charedig y coblynnod yn golygu bod Clara'n cael cadw'r siop, ac yn gwneud ffrindiau newydd. Mae'n bwysig iawn helpu a bod yn garedig i eraill. Drwy wneud hyn, gallech chi gael eich gwobrwyo gyda charedigrwydd.



Mae'r ymarfer yma wedi'i gynllunio i annog y plant i feddwl am eu hiechyd a'u lles, ynghyd â iechyd a lles y bobl o'u cwmpas, mewn modd mynegiannol.

Dechrau

1. Gofynnwch i'r plant ddisgrifio sut mae bod yn garedig yn gwneud iddyn nhw deimlo.
Ble yn y corff ydych chi'n teimlo caredigrwydd?
2. Gallech ddechrau drwy ofyn i'r plant roi gwahanol enghreifftiau o fod yn garedig i rywun, a rhywun yn bod yn garedig iddyn nhw.
3. Anogwch y plant i drafod pa mor bwysig yw bod yn garedig.

Prif Ymarfer

1. Gofynnwch i'r plant eistedd i lawr mewn cylch, a rhwch foch wedi'i addurno yng nghanol y cylch. Gofynnwch i'r plant ddyfalu beth allai fod yn y boes o'u blaenau.
2. Eglurwch ein bod ni am basio'r anrheg i'n gilydd, er mwyn atgoffa'n hunain sut mae bod yn garedig wrth ein gilydd yn teimlo.
3. Gofynnwch i'r plant roi'r boes i'r person nesaf yn y cylch. Maen nhw'n ei roi i'w gilydd fel anrheg.
4. Cymerwch eiliad i drafod beth allai'r anrheg yn y boes fod. Beth yw'r peth gorau allen nhw ei dderbyn?
5. Pan fydd y boes yn cael ei basio o gwmpas, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddal â gofal a pharch, gan fod yr hyn sydd y tu mewn yn werthfawr!
6. Wrth gael anrheg, dylai pob plentyn ddweud "Diolch. Mae'r anrheg yma'n wych." bob tro wrth y person sy'n ei roi iddyn nhw.
7. Yna, dylen nhw agor y boes ac ymateb i'r cynnwys dychmygol yn y ffordd fwyaf posib, fel pe bai hwn yr anrheg gorau yn y byd.
8. Ar ôl iddyn nhw ymateb i'w hanrheg, dylen nhw droi unwaith eto at y person roddodd yr anrheg iddyn nhw, a dweud unwaith eto "Diolch. Mae'r anrheg yma'n anhygoel."
9. Nawr bod y plant i gyd wedi cael eu hanrheg, gofynnwch iddyn nhw siarad am sut gwnaeth hynny iddyn nhw deimlo. Wnaethon nhw fwynhau rhoi'r anrheg cymaint â'i dderbyn? Efallai y byddwch chi am wneud nodyn o rai o'u hymatebion.
10. Nawr gwnewch yr ymarfer unwaith eto. Ond y tro yma, dydy'r anrheg ddim yn wych – mae'n ofnadwy – ond mae'r plant yn dal i ddiolch i'r person sy'n ei roi iddyn nhw, ac yna'n ymateb mewn ffordd negyddol.
11. Ar ôl i'r holl blant dderbyn eu cas anrheg, gofynnwch iddyn nhw drafod sut roedd yn gwneud iddyn nhw deimlo o gymharu ag anrheg da. Sut roedden nhw'n teimlo pan oedd rhywun yn diolch iddyn nhw er eu bod nhw'n gwybod nad dyma'r anrheg roedden nhw ei eisio?
12. Yn olaf, gofynnwch i'r plant drafod y ffyrdd gorau o ymateb pan fyddwch chi'n cael rhywbeth nad ydych chi'n ei hoffi.

Cam ymhellach

Efallai y byddwch chi am siarad gyda'r plant am sut mae eu cyrff yn ymateb i brofiadau cadarnhaol a negyddol. Ydy curiad eu calon, eu hanadl neu eu tymheredd yn newid?

CLOC I'R COBLYNNOD



Mae deall yr amser yn bwysig iawn i'r Coblynnod gan eu bod yn gorfod gweithio i gyrraedd eu targed o greu 20 pâr o esgidiau bob nos! Gall y plant helpu'r coblynnod i fod yn brydlon drwy greu oriawr iddyn nhw.

Mae'r ymarferion yma wedi'u dylunio i annog y plant i feddwl am wahanol ffyrdd o fynegi a defnyddio amser, gan adio gwahanol gyfnodau o amser ynghyd ag elfen greadigol, sef creu a dylunio oriawr neu gloc.

GWEITHGAREDD 3

Dechrau

1. Dechreuwch drwy siarad gyda'r grŵp am adegau nodedig yn eu diwrnod. Helpwch nhw i lunio llinell amser o ddigwyddiadau sy'n digwydd iddyn nhw:

- ❖ Codi
- ❖ Gadael y tŷ
- ❖ Cyrraedd yr ysgol

Dim ond awgrymiadau yw'r rhain i chi ddechrau arni – byddwch chi a'r plant yn meddwl am lawer mwy.

2. Gofynnwch i'r plant, pryd maen nhw'n gwybod ei bod hi'n amser gwely, yn amser codi, neu'n amser mynd i'r ysgol?
3. Anogwch y plant i drafod beth maen nhw'n ei gofio am bwysigrwydd amser i'r Coblynnod yn y stori. Helpwch nhw i adeiladu llinell amser o'r digwyddiadau yn niwrnod y Coblynnod (gan gofio eu bod nhw'n gweithio gyda'r nos):


- ❖ Codi
- ❖ Gadael y tŷ
- ❖ Cyrraedd y gweithdy

Dim ond awgrymiadau yw'r rhain i chi ddechrau arni – mae yna lawer mwy.

4. Gofynnwch i'r plant, sut maen nhw'n meddwl mae'r Coblynnod yn gwybod pan mae'n bryd iddyn nhw wneud rhywbeth?

Prif Ymarfer

1. Gan ddefnyddio'r templed cloc isod (neu gallwch dynnu llun o un eich hunan), ychwanegwch y rhifau ar wyneb y cloc mewn fformat 12 awr.
2. Gofynnwch i'r plant dorri eu cloc allan ac addurno'r wyneb yn ofalus. Gallen nhw greu patrwm Nadoligaidd, ychwanegu enw'r perchennog, neu gallech ychwanegu ffrâm o'i gwmpas er mwyn iddo edrych fel cloc mawr.
3. Gofynnwch i'r plant ddewis amser un o'r digwyddiadau ym mywydau'r Coblynnod, a gofynnwch iddyn nhw roi bysedd ar y cloc ar yr amser mae hyn yn digwydd.



4. Nesaf, mae angen i'r plant weithio allan faint o'r gloch mae'r Coblynnod yn dechrau gweithio a phryd maen nhw'n gorffen, os oes rhaid iddyn nhw wneud 20 pâr o esgidiau bob nos.


I ddechrau, dyma'r amser mae'n ei gymryd i greu 2 bâr o esgidiau:

- ❖ Torri'r lledr a'r defnydd: 5 munud
- ❖ Pwytho'r defnydd gyda'i gilydd = 10 munud
- ❖ Torri a phwytho gwaedn yr esgidiau = 10 munud
- ❖ Ychwanegu careiau = 5 munud


Gofynnwch i'r plant pa mor hir yw'r broses yma er mwyn gwneud 2 bâr o esgidiau? (30 munud)

Gofynnwch i'r plant pa mor hir felly yw'r broses yma er mwyn gwneud 20 pâr o esgidiau? (5 awr)

Nawr eich bod chi wedi gweithio allan am sawl awr mae angen i'r corachod weithio er mwyn creu 20 pâr o esgidiau, mae'n amser gosod eu hamser cinio a'u hamser gorffen. Mae'r coblynnod yn dechrau gweithio am 9 o'r gloch y nos, ac mae angen awr o egwyl arnyn nhw. Tynnwch lun o amser eu hawr ginio, a'r amser gorffen ar y cloc arall. *Cofiwch: Bys byr y cloc sy'n dweud yr awr, a'r bys hir sy'n dweud y munudau.*



Amser Egwyl



Amser Gorffen

Cam ymhellach:

O na! Mae'n ymddangos mai dim ond cloc 24 awr mae rhai coblynnod yn gallu ei ddarllen. Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i chi drosi'r amseroedd 12 awr i fformat 24awr. Ar ôl i chi ddod i ddeall y cloc 24 awr, er mwyn ymarfer, llenwch y tabl isod.

Gair i gall: Pe bai'r coblynnod yn dechrau'r gwaith am 9 y bore, byddai hyn yn darllen 09.00 ar y

Gweithgaredd	Amser dechrau	12 awr	24 awr
Torri lledr a defnydd	NAW O'R GLOCH Y NOS		
Pwytho'r defnydd	UN AR DDEG O'R GLOCH Y NOS		
Torri a phwytho'r gwaedn	TRI O'R GLOCH Y BORE		
Ychwanegu careiau	SAITH O'R GLOCH Y BORE		

cloc 24 awr. Hefyd, mae'r cloc 24 awr yn mynd i fyny at 23:00 (11PM), ac yna bydd canol nos (12AM) yn edrych fel hyn: 00.00.

MEDDWL AM ERAILL – DANGOS DIOLCHGARWCH

GWEITHGAREDD 4

Yn stori Y Coblynnod a'r Crydd, cafodd Clara gymorth gan y Coblynnod. Rydyn ni'n gwybod y byddai Clara am ddiolch i'r Coblynnod am y gwaith anhygoel maen nhw wedi'i wneud iddi. Mae llawer o ffyrdd y gallen nhw wneud hyn, ond rydyn ni am i chi ddychmygu y gallai Clara anfon llythyr at y Coblynnod i ddiolch.

Gallai'r plant ddefnyddio'r ymarfer yma i gofio eu hoff ddarnau o'r perfformiad neu'r stori, neu gallen nhw ddisgrifio beth wnaeth iddyn nhw chwerthin, tynnu llun o'u hoff gymeriad, neu addurno eu llythron.

Prif Ymarfer

1. Gofynnwch i'r plant roi eu hunain yn esgidiau'r Crydd a meddwl am syniadau o'r hyn hofften nhw ei ddweud wrth y Coblynnod mewn llythyr o ddiolch.
2. Anogwch nhw i feddwl am y mathau o eiriau y gallen nhw eu defnyddio i ddisgrifio'r diolchgarwch a phryd mae mewn arddull ffurfiol neu gyfeillgar.
3. Gallwch wneud y ddau gwestiwn nesaf yn ysgrifenedig, gan greu map meddwl neu arlunio, ond fel arall gallai'r plant ddangos mynegiant wyneb neu ystum i chi y gall pawb arall yn y grŵp ei gofio'n ôl.
 - ❖ Pa fath o bethau mae'r plant yn eu gwneud i helpu pobl?
 - ❖ Yna pa bethau mae'r plant yn eu gwneud ar gyfer eu teulu neu ffrindiau pan mae angen cefnogaeth aryn nhw? *Noder: Gallwch wneud hyn fel gwaith pâr fel bod y plant yn gwneud y gweithredoedd i'w gilydd i'w dangos i'w cyfoedion.*
4. Ar ôl hyn, dylen nhw ystyried y canlynol:
 - ❖ Sut mae diolch i bobl am yr hyn maen nhw wedi'i wneud i chi?
 - ❖ Sut mae eich ffrindiau'n diolch i bobl am yr hyn maen nhw wedi'i wneud iddyn nhw?
5. Ar ôl i'r plant drafod hyn, dylen nhw ysgrifennu llythyr at y Coblynnod gan Clara i ddiolch iddyn nhw am eu gwaith caled a'u caredigrwydd.

Cam ymhellach:

Trafodwch sut byddai'r Coblynnod yn teimlo wrth gael llythyr o ddiolch. Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw wedi ysgrifennu neu dderbyn llythyron o'r blaen, at neu gan deulu a ffrindiau, ac i ystyried gan bwy hofften nhw dderbyn llythyr.



SYNAU'R GWEITHDY

GWEITHGAREDD 5

Mae'r Coblynnod yn creu'r esgidiau mewn gweithdy sy'n debyg i ffatri fach. Byddai'n lle swllyd a phrysur, gyda synau fel "Clee", "Tap-tap-tap", "Snip" ac wrth iddyn nhw weithio gyda'r hwyr, mae'n bosib y byddai synau'r nos fel "Twit-tŵ" a chwynu'r Coblyn "soch wiw", neu'r tywydd tu allan "pitian-patian".



Mae'r ymarferion yma'n dechrau edrych ar y gweithdy, ei nodweddion a'r synau sy'n gysylltiedig â nhw.

Dechrau

1. Gan eistedd mewn cylch, anogwch y plant i gymryd eu tro i ddisgrifio'r offer, y gweithredoedd, a'r elfennau maen nhw'n meddwl sy'n creu amgylchedd gweithdy. Beth maen nhw'n ei weld a'i glywed? e.e. peiriant gwnïo // offer torri // morthwylion hoelion // sandio pren.
2. Nawr, ewch o gwmpas y cylch a gofynnwch i bob person ifanc ddewis elfen rydych chi wedi'i chrybwyll a gwneud ystum sy'n symboleiddio eu helfen.
3. Ar ôl i chi fynd o gwmpas y cylch cyfan, ewch o gwmpas unwaith eto gan ofyn i'r plant ddisgrifio'r gweithdy gan ddefnyddio dim ond y synau a fyddai'n cyd-fynd â'u gweithgaredd – anogwch y plant i fod yn anturus gyda'u dewis o synau.

Prif Ymarfer

4. Gwrandewch ar y fideo canlynol dwy funud o hyd, o gôr yn gwneud synau storm o law <https://www.youtube.com/watch?v=29qaN0M0o0s>.
5. Rhwch nodyn *post-it* i bob plentyn, a gofynnwch iddyn nhw wrando ar ei gilydd unwaith eto. Bob tro maen nhw'n clywed sain newydd, dylen nhw nodi ar y papur beth maen nhw'n meddwl ydy'r sain cyn ei lynu i'r wal. Sut gallwn ni ddweud beth mae'r sain yn ei gynrychioli? Lefel y sain / y traw / y cyflymder?
6. Nesaf, dangoswch un neu ddau o'r dolenni fideo canlynol i'r plant: https://www.youtube.com/watch?v=UO3N_PRIgX0 ffilm chwe munud am greu effeithiau sain ffilm. https://www.youtube.com/watch?v=tQl_-MghIjo ffilm chwarter awr am greu effeithiau sain.
7. Siaradwch gyda'r plant am sut mae gwahanol rannau o'r corff, eitemau, gweithredoedd, canu ac offerynnau yn gallu cael eu defnyddio i greu cyfanwaith o synau sy'n gwneud i ni ddychmygu lleoliad neu ddigwyddiad.
8. Rhwch rai o'r canlynol i'r plant, a gofynnwch iddyn nhw arbrofi gyda'r synau maen nhw'n eu gwneud:
Bagiau plastig / Ffyn glaw / Esgidiau / Symbalau / Drwm / Maracas / Tambwrîn / Seiloffon
9. Anogwch y plant i gopïo rhywfaint o'r hyn maen nhw wedi'i weld, ac arbrofi gyda'u hoff effeithiau o'r fideos.
10. Gan ddefnyddio'r lluniau yma (<https://pin.it/1vQ0tsv>) fel ysbrydoliaeth, defnyddiwch y deunyddiau i greu cyfres o synau sy'n cyfleu gweithdy. Gofynnwch iddyn nhw feddwl nid yn unig am y synau yn y ffatri, ond synau'r tywydd y tu allan hefyd.
11. Ar ôl i chi drafod y synau yma, gofynnwch i'r plant ym mha drefn ddylen nhw fod. Ym mha drefn ddylai ein cynulleidfau eu clywed?
Gellid recordio'r amrywiadau hyn er mwyn gwrandao'n ôl arnyn nhw, a thrafod pa rai oedd yn effeithiol a pham.
12. Sut mae'n newid wrth i chi eu rhoi mewn trefn wahanol? Pwysleisiwch wrth y plant bod angen cysylltu'r elfennau gyda'i gilydd yn llyfn, fel bod synau prosesau'r gweithdy yn "lifo" o un sain i'r nesaf. Trafodwch sut gall lefel y sain, y cyflymder a'r traw helpu gyda hyn.

Cam ymhellach:

Pan fydd yr holl recordiadau gyda chi, gallech gymharu a chyferbynnu sut maen nhw'n gwneud i'r bobl ifanc deimlo pan maen nhw'n gwrandao arnyn nhw. Gallech gymharu'r rhain gyda dim sŵn o gwbl, neu synau naturiol drwy fynd â nhw i'r awyr agored at yr amgylchedd naturiol. Ydyn nhw'n gwneud i'r bobl ifanc deimlo'n wahanol?

CERDDED YN ESGIDIAU'R GORFFENNOL

GWEITHGAREDD 6

Yn *Y Coblynnod a'r Crydd*, rydyn ni'n gwybod mai Crydd yw Clara. Mae hi a'i gŵr wedi bod yn gwneud esgidiau ers blynyddoedd lawer, felly rydyn ni'n gwybod bod yn rhaid eu bod nhw wedi dylunio esgidiau ar gyfer llawer o wahanol ddegawdau. Bydd yn rhaid iddyn nhw fod wedi addasu sut maen nhw'n creu esgidiau i lawer o wahanol dueddiadau ffasiwn. Allwch chi ddychmygu gwisgo'r esgidiau roedd eich nain a'ch taid yn eu gwisgo heddiw?



Diben yr ymarfer yma yw hybu ymwybyddiaeth y plant o'u hanes. Mae'n bwysig ei bod nhw'n dysgu am ddiwyddiadau cyn eu hamser nhw mewn ffordd weledol a hwyliog.

Dechrau

1. Dangoswch luniau o wahanol esgidiau o oesoedd o'r blaen i'r plant. Mae llun o un o'r esgidiau hynaf erioed ar gael ar-lein. Mae wedi'i wneud o groen carw, croen arth a gwellt! <https://www.nationalgeographic.com/culture/article/100609-worlds-oldest-leather-shoe-armenia-science>
2. Gofynnwch i'r plant pa bwrpas sydd gan esgidiau iddyn nhw. Pam ydyn ni'n gwisgo esgidiau?
3. Eglurwch fod esgidiau'n dod i mewn ac allan o ffasiwn, er enghraifft: mae sandalau gladiator wedi ailymddangos dros y blynyddoedd, ac esgidiau brogue, gwahanol fathau o dreinyrs ac ati.
4. Eglurwch pa esgidiau sydd â swyddi gwahanol i wahanol bobl, a'u bod yn cyferbynnu â'r esgidiau rydyn ni'n eu gwisgo nawr.

Prif Ymarfer

1. Rhannwch eich pobl ifanc yn grwpiau ymchwil esgidiau.
2. Gofynnwch i'r plant gasglu gwybodaeth am esgidiau o unrhyw gyfnod mewn hanes – efallai y byddwch chi am roi cyfnodau penodol iddyn nhw, fel yr Oes y Rhufeiniaid, Oes y Celtiaid ac Oes Fictoria.
3. Anogwch y plant i ddod o hyd i fanylion am y deunyddiau a ddefnyddiwyd, y lliwiau, y gweadau a'r meintiau.
4. Dylai'r plant ddatblygu proffil ar eu hesgidiau.
 - ❖ Pwy sy'n gwisgo'r esgidiau?
 - ❖ Beth maen nhw'n ei wneud pan maen nhw'n eu gwisgo?
 - ❖ Ble maen nhw'n gwisgo'r esgidiau?
 - ❖ Pam maen nhw'n eu gwisgo?
 - ❖ Sut maen nhw'n eu gwisgo?
5. Ar ôl iddyn nhw greu'r proffiliau yma (yn cynnwys llun a thestun), gallech greu 'Wal Esgidiau' i ddangos y gwahanol gyfnodau mae'r bobl ifanc wedi edrych arnyd nhw.
6. Trafodwch gyda'r grŵp sut mae amrywiaeth o steiliau esgidiau yn awgrymu sut rydyn ni fel pobl wedi newid gyda hanes.
7. Trafodwch pa mor wahanol yw'r esgidiau o gymharu â beth rydyn ni'n ei wisgo heddiw.
8. Anogwch y plant i ddewis eu hoff esgidiau neu elfennau o esgidiau.
9. Ydy'r plant yn meddwl bod steil neu esgid benodol y byddai'r Coblynnod yn ei chreu?

Cam ymhellach:

Ar ôl i'r plant ddewis eu hoff esgidiau, gofynnwch iddyn nhw dynnu llun o sut byddai'r esgid o'u dewis yn edrych pe bai'n cael ei gwisgo heddiw. Anogwch nhw i fod yn greadigol gyda'r dasg yma. Efallai y gallech ofyn iddyn nhw ddychmygu'r person cyfan sy'n gwisgo'r esgid – sut maen nhw'n edrych, a pham maen nhw'n gwisgo'r esgid? Ydyn nhw'n adnabod y person?

Gofynnwch i'r plant ddisgrifio sut roedd creu'r esgid yn gwneud iddyn nhw deimlo. Ydyn nhw'n hapus gyda beth greon nhw? Ydyn nhw'n meddwl y byddai pobl yn prynu eu hesgidiau, fel gwnaeth y bobl yn *Y Coblynnod a'r Crydd*?

SGIDIAU SMART

Yn *Y Coblynnod a'r Crydd*, mae'r stori'n dilyn Clara a'r Coblynnod yn creu'r esgidiau gorau erioed. Maen nhw'n defnyddio lledr, rhuban a deunyddiau creu esgidiau traddodiadol eraill. Mae'r gweithgaredd yma'n edrych ar sut caiff esgidiau modern eu creu, ac o ba ddeunyddiau.

Y nod yw archwilio gwahanol fathau o esgidiau, edrych ar y wyddoniaeth a'r dechnoleg dylunio y tu ôl i'r gwaith o greu a gweithgynhyrchu esgidiau.

GWEITHGAREDD 7



Dechrau

1. Gwylwch y darn byr yma o raglen wyddoniaeth ar y BBC *How to make it*, sy'n fan cychwyn gwyh: <https://youtu.be/-0opdJoHywU> fideo 2.5 munud
2. Gofynnwch i'r plant beth welon nhw a oedd yn ddiddorol. Pa ddeunyddiau, lliwiau a gwadau welon nhw? Beth oedden nhw am ddysgu mwy amdano?

Prif Weithgaredd

3. Gofynnwch i'r disgyblion edrych yn agos ar eu hesgidiau eu hunain.
4. Anogwch nhw i ystyried y cwestiynau canlynol – efallai y byddwch am ofyn iddyn nhw gofnodi eu hymatebion:
 - ❖ O beth maen nhw'n credu mae eu hesgidiau wedi'u creu?
 - ❖ Pa weadau, lliwiau, deunyddiau a haenau sydd yno?
 - ❖ Pa gareiau neu ddull cau sydd arnyn nhw?
 - ❖ Sut maen nhw'n teimlo i gerdded ynddyn nhw?
 - ❖ Oes ganddyn nhw nodweddion neu ddiben arbennig?
 - ❖ Sut gallwch chi ddweud bod yr esgidiau wedi cael eu gwisgo?
 - ❖ A gawson nhw eu creu â llaw neu gan beiriant?
 - ❖ Ar gyfer pa dywydd maen nhw'n addas?

Efallai y bydd y plant am ofyn cwestiynau eraill am eu hesgidiau.

5. Ar ôl i'r plant greu rhestr o ymatebion, dewiswch un ohonyn nhw a rhowch eu hesgid yng nghanol y cylech, a gofynnwch i blentyn arall ddisgrifio'r esgid.
6. Efallai y byddwch am iddyn nhw ddefnyddio brawddegau cymharu a chyferbynnu, fel:

Galla i weld bod gan yr esgid yma _____.

Does gan fy esgid i ddim un o'r rheini, ond maen nhw fel _____.
7. Anogwch y plant i ystyried y math y swyddi y byddai'r esgidiau'n addas i'w gwneud. A fydden nhw'n dda i gerdded drwy'r afon? A ydyn nhw'n berffaith i ddawnsio? Allech chi archwilio coedwig fawr yn eu gwisgo nhw?
8. Ewch o gwmpas y cylech yn sierhau bod yr holl blant wedi rhannu eu hesgidiau ac wedi gwerthuso rhai rhywun arall.
9. Trafodwch beth maen nhw'n meddwl y byddai esgidiau'r Coblynnod wedi'i wneud ohono.
 - ❖ Sut bydden nhw wedi cael eu gwneud yn wahanol i esgidiau modern?
 - ❖ Pa wahanol ddeunyddiau gaiff eu defnyddio?
10. Yn olaf, dyluniwch eich esgidiau coblyn eich hunain gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu – efallai bod rhain gennych chi eisoes, neu gallech ddefnyddio lluniau o'r we neu o gylchgronau mewn gludwaith.

Sierhewch fod y plant yn ystyried lliwiau, gwadau, a deunyddiau addas y gellid eu hailddefnyddio o'r swydd maen nhw'n ei gwneud ar hyn o bryd, i gael eu defnyddio fel esgid. Anogwch y plant i labelu'r esgid coblyn i egluro'r gwahanol ddeunyddiau a ddefnyddiwyd a pham y defnyddiwyd nhw. E.e. teiar beic i osgoi llithro

Cam ymhellach

Meddylwch am hysbysebion esgidiau modern a brandiau esgidiau e.e. Nike a Clarks, a cheisiwch feddwl am ymgyrch hysbysebu ar gyfer y teledu neu boster ar gyfer eich esgidiau coblyn modern wedi'u hailgylchu.

ESGIDIAU LLAWN CYMERIAD

Mae cymaint o wahanol esgidiau rydyn ni'n eu gwisgo drwy ein bywydau, rhai ar gyfer gwaith, rhai ar gyfer chwaraeon, a rhai ar gyfer achlysuron arbennig. Ond allwn ni ddweud pwy yw rhywun ar sail eu hesgidiau yn unig?

Bydd yr ymarfer yma'n annog y bobl ifanc i feddwl am bobl eraill, a'r esgidiau maen nhw'n eu gwisgo. Gallech ddefnyddio'r ymarfer yma fel pwynt dechrau i ysgogi'r bobl ifanc i feddwl am yrfaedd a nodweddion adnabod eraill a allai ein helpu ni i weithio allan beth yw swydd rhywun.

GWEITHGAREDD 8



Dechrau

1. Gofynnwch i'r plant edrych ar y lluniau yma: <https://pin.it/1Au4XvV>
2. Anogwch nhw i ddewis hoff lun, ac ystyried cymaint o'r manylion â phosib.
3. Dylen nhw feddwl am y person sy'n gwisgo'r esgid yna. *Pwy sy'n gwisgo'r esgidiau? Beth maen nhw'n ei wneud pan maen nhw'n eu gwisgo? Pam maen nhw'n eu gwisgo? Sut maen nhw'n symud wrth eu gwisgo?*
4. Nesaf, gofynnwch iddyn nhw dynnu llun o'r person sy'n gwisgo'r esgidiau yma. Bydd yn rhaid iddyn nhw ddefnyddio eu dychmyg – does dim ateb cywir i ddim o hyn.

Prif Ymarfer

5. Ar ôl iddyn nhw orffen eu lluniau, dylen nhw eu rhoi ar y llawr o'u blaenau.
6. Nawr, gofynnwch iddyn nhw sefyll gyda'u traed led ysgwydd ar wahân a'u breichiau wrth eu hochr.
7. Dylen nhw gau eu llygaid a dychmygu bod y person maen nhw wedi tynnu llun ohono yn eistedd o'u blaen.
8. Nawr maen nhw'n camu i mewn iddyn nhw.
9. Dylai'r plant ddychmygu bod y fan lle roedd eu cymeriad yn sefyll wedi dod yn ddarn jig-so enfawr, ac y byddan nhw'n rhoi eu corff ynddo.
10. Dylen nhw gamu ymlaen i mewn i'r darn jig-so yma.
11. Dylen nhw wthio eu corff i'r gofod a chymryd arnynt gorfforoldeb eu cymeriad, gan ymestyn ac ystwytho eu corff a'u hwyneb.
12. Nawr, camwch yn ôl allan ohonyn nhw ac yn ôl i'ch osgo hamddenol.
13. Dylai'r plant agor eu llygaid nawr, a gweld sut mae pawb yn edrych.
14. Yn olaf, gwahoddwch nhw i gerdded o gwmpas yr ystafell – efallai y byddwch am roi cerddoriaeth ymlaen iddyn nhw gael teithio o gwmpas yr ystafell.
15. Yn olaf, gofynnwch iddyn nhw aros yn stond ac ysgwyd eu cymeriad i ffwrdd, fel pe baen nhw'n ysgwyd eu hunain yn ôl yn fyw.
16. Gofynnwch i'r plant fyfyrar ar eu profiad gan ddefnyddio'r brawddegau canlynol:

Pan oeddwn i'n cerdded o gwmpas, roeddwn i'n teimlo fel _____.

Yna, dewiswch un ai:

Dydw i ddim yn teimlo fel yna pan rwy'n cerdded, ond mae fel fy _____.

Neu

Mae gen i un o'r rheini hefyd.

17. Yn olaf, gofynnwch i'r plant beth maen nhw wedi'i sylwi am bobl eraill. Beth oedd o ddiddordeb iddyn nhw? Hoffen nhw gwrdd â chymeriad rhywun? Oedd rhywun nad oedden nhw'n ei hoffi?

YN ESGIDIAU RHYWUN ARALL

Mae'r Crydd (Clara) yn lwcus o gael y Coblynnod i edrych ar ei hôl. Maen nhw'n gofalu amdani drwy greu esgidiau mae hi'n gallu eu gwerthu, fel bod ganddi ddigon o arian i fwyta ac aros yn gynnes. Mae yna bobl yn y byd sydd ddim mor lwcus â'r crydd. Maen rhaid iddyn nhw weithio'n galed a mynd ar deithiau peryglus er mwyn goroesi a dod o hyd i le diogel i fyw.

Nod yr ymarferion canlynol yw annog eich plant i ddysgu a siarad am bobl y mae eu bywydau'n wahanol i'w bywydau nhw, fel pobl wedi'u dadleoli, er mwyn datblygu empathi tuag at eraill a dod yn ddinasyddion byd-eang.



Dechrau

1. Gofynnwch i'r plant ystyried sut byddai gwisgo esgidiau rhywun arall am ddiwrnod yn teimlo. *Gallen nhw ddychmygu sut byddai gwisgo sodlau uchel, neu esgidiau glaw, neu hyd yn oed esgidiau trwm swyddog tân yn teimlo.*
2. Anogwch nhw i ddangos sut byddai eu traed yn teimlo ar ôl gwisgo'r esgidiau yna drwy'r dydd a gorffen eu trefn ddyddiol. *Sut brofiad fyddai brwsio eu dannedd neu chwarae y tu allan wrth wisgo'r esgidiau?*
3. Nawr, gofynnwch iddyn nhw ddychmygu bod heb esgidiau am ddiwrnod cyfan. Pa beryglon fyddai eu traed yn eu hwynebu?
4. Yn olaf, gofynnwch iddyn nhw sôn wrthoch chi am yr heriau wynebon nhw wrth gerdded yn esgidiau rhywun arall, a sut bydden nhw'n eu goresgyn.

Prif Ymarfer

Cyflwynwch y plant i'r pyped Amal, a pherfformiad *The Walk* gyda'r clip 5 munud yma: <https://www.youtube.com/watch?v=pGn6awlLdaw>

5. Eglurwch beth yw ffoadur wrth y plant – mae eglurhad da yn y clip fideo yma: <https://youtu.be/CRk8eaW3X1Y> (3 munud)
6. Gweithiwch gyda'r plant i greu map meddwl o sut bydden nhw'n teimlo pe baen nhw yn esgidiau rhywun wedi'u dadleoli – gallech ddefnyddio emojis neu symbolau hefyd i'w helpu i fynegi eu hemosiynau.
7. Nawr gweithiwch gyda'r plant gan ofyn iddyn nhw ddweud wrthoch chi beth maen nhw'n meddwl mae pobl wedi'u dadleoli'n chwilio amdano. Beth sydd ei angen neu ei eisiau arnyn nhw?
Bwyd, lloches, diogelwch ac ati.
8. Mewn parau neu grwpiau bach, gofynnwch i'r plant greu rhestr o awgrymiadau o sut gallen nhw helpu i roi'r pethau sydd eu hangen ar bobl wedi'u dadleoli iddyn nhw. *Pa weithredoedd bach o garedigrwydd all wneud gwahaniaeth?*
9. Gofynnwch i'r plant adrodd yn ôl wrth y dosbarth un ffaith maen nhw wedi'i dysgu am bobl wedi'u dadleoli, ac un peth gallan nhw ei wneud i wneud gwahaniaeth.

Cam ymhellach:

Weithiau gall enwau pobl ddweud ychydig wrthon ni am fywydau ein cyndeidiau, beth oedd eu gwaith, neu ble roedden nhw'n byw. Mae enw Amal (y ferch byped) yn golygu 'gobaith' yn Arabeg. Gofynnwch i'r plant ymchwilio i ystyr eu henwau neu enwau eu teuluoedd. Pan fyddan nhw'n gwybod y wybodaeth yma, anogwch nhw i dynnu llun sy'n ei gyfleu.

Dysgwch fwy am y cynhyrchiad theatr teithiol *The Walk* sy'n adrodd stori Amal, plentyn sy'n ffoadur o Syria. Mae'r perfformiad yma'n teithio'r byd i hyrwyddo dealltwriaeth o ffoaduriaid, a'r teithiau heriol maen nhw'n aml yn eu gwneud.

<https://www.walkwithamal.org/>


CLYMU EICH CAREIAU

GWEITHGAREDD 10

Mae'r gweithgaredd yma'n helpu i annog annibyniaeth wrth ddysgu sut i glymu careiau esgidiau, ynghyd â defnyddio sgiliau rhifedd i gyfrifo pa mor hir ddylai'r careiau fod.

Prif Weithgaredd

1. Defnyddiwch y templed isod i dorri amlinelliadau'r esgid dde a chwith - gan ddefnyddio tyllwr ar gyfer tyllau'r careiau.
2. Dechreuwch drwy annog y plant i liwio eu hesgidiau a'u personoli. *Gallen nhw ddwyn ysbrydoliaeth gymryd dylanwad gan rai o'r esgidiau eraill maen nhw wedi bod yn edrych arnyn nhw.*
3. Ar ôl iddyn nhw addurno eu hesgidiau, mae angen iddyn nhw ychwanegu'r careiau atyn nhw.
4. Eglurwch fod angen i'r plant weithio allan pa mor hir sydd angen i'r careiau fod cyn iddyn nhw eu hychwanegu.
5. Gofynnwch i'r plant am syniadau ynghylch sut gallen nhw gyfrifo hyd y careiau: cyfrif nifer y tyllau, mesur y pellter rhwng y tyllau ac ati
6. Nawr rhannwch y tabl isod gyda nhw:
90cm = Hyd at 6 phâr o dyllau
120cm = Hyd at 8 pâr o dyllau
150cm = Hyd at 10 pâr o dyllau
7. Gofynnwch iddyn nhw pa mor hir sydd angen i'r careiau ar gyfer yr esgidiau hyn fod.
8. Sut gallan nhw wirio cywirdeb eu mesuriad?
9. Nesaf, gofynnwch iddyn nhw fesur a thorri'r hyd cywir ar gyfer eu hesgidiau.
10. Ar ôl iddyn nhw roi cynnig ar hyn, gofynnwch iddyn nhw greu a chlymu eu templedi esgidiau eu hunain.
11. Pa mor hir ddylai careiau eu hesgid nhw fod? A yw'r mesuriadau roeson ni'n gywir?



YMWELD A'R SHERMAN

GWEITHGAREDD 11

Er mwyn helpu i gael dealltwriaeth ehangach o'r amrywiaeth o swyddi yn y byd, ac yn y theatr yn benodol, fe'ch anogwn i drefnu ymweliad â'r Sherman i weld sut caiff cynhyrchiad ei greu a'i gefnogi. Rydyn ni bellach yn gallu cynnig teithiau digidol, fel bod modd ymweld â ni o'r ystafell ddosbarth drwy Zoom.

Gallai hyn ffurfio rhan o'ch taith i weld Y Coblynnod a'r Crydd, neu fod ar adeg wahanol. Cysylltwch â timothy.howe@shermantheatre.co.uk i gael rhagor o fanylion.



Dechrau

1. Dechreuwch drwy ofyn i'r plant pwy maen nhw'n meddwl sy'n rhan o greu cynhyrchiad theatr? Beth mae'r bobl yma'n ei wneud, a beth yw teitlau eu swyddi?

Cyfarwyddwr / Actor / Dylunydd / Rheolwr Llwyfan / Dylunydd Goleuo / Dylunydd Sain

Efallai y bydd angen cymorth arnyn nhw gyda theitlau'r swyddi yma, felly mae'n bosib y bydd hi'n haws gofyn iddyn nhw ddisgrifio'r swydd a rhoi'r teitlau iddyn nhw.

2. Ar ôl iddyn nhw nodi'r swydd, rhannwch nhw yn grwpiau bach i greu mapiau meddwl sy'n dangos y gwahanol bethau mae pob person yn ei wneud ar gynhyrchiad.

Prif Ymarferion

Dyma rai gweithgareddau a fydd yn caniatáu i chi a'r plant ddechrau archwilio rhai o'r rolau siaradoch chi amdanynt uchod.

3. Ymarfer Goleuo

Mae'r ymarfer yma'n archwilio sut gall onglau golau effeithio ar sut rydyn ni'n teimlo am rywun.

- ❖ Defnyddiwch ffynhonnell olau (fflachlamp / golau ffôn / lamp ddesg).
- ❖ Gofynnwch i rywun sefyll o flaen y grŵp – nhw fydd eich actor chi.
- ❖ Arbrofwch gyda rhoi'r golau mewn gwahanol lefydd mewn perthynas â wyneb eich actor.
- ❖ Gofynnwch i'r plant wneud awgrymiadau am wahanol uchderau, agosrwydd, ac os yw o'u blaen neu y tu ôl iddyn nhw.



Dylid annog y plant i ddweud sut mae'r gwahanol onglau yma'n newid sut rydyn ni'n teimlo am y person o dan y golau? Efallai y byddwch chi am ofyn pa fath o gymeriad allen nhw fod?

Yn ogystal, gallech ystyried effaith lliw ar yr actor drwy ddal sgwaryn o ddeunydd lapio Quality Street rhwng y ffynhonnell olau a'r pwnc.

4. Ymarfer Gwisgoedd



Mae'r ymarfer yma'n edrych ar sut gall y ffordd rydyn ni'n gwisgo rhywbeth newid beth ydyw.

- ❖ Dylai'r grŵp ffurfio cylch a rhoi unrhyw ddeunydd neu ddillad yn ei ganol.
- ❖ Dylai un person fynd i mewn i'r cylch a rhoi'r eitem ymlaen, a gwneud ystum sy'n dangos beth ydyw heb ddweud wrthon ni.

Noder: Ni ddylai'r deunydd / dillad BYTH gael ei wisgo fel beth ydyn nhw go iawn.

- ❖ Bydd angen i'r gweddill ddyfalu beth yw eu dillad, yn seiliedig ar sut caiff ei wisgo.
- ❖ Ar ôl dyfalu'n gywir, mae'n rhaid iddyn nhw gyfnewid gyda'r person nesaf yn y cylch.
- ❖ *Gallech oedi'r weithred a gofyn i'r grŵp drafod sut gallai'r lliw, y gwead a'r arddull effeithio ar sut rydyn ni'n edrych ar y person sy'n ei wisgo.*

5. Ymarfer Sain

Mae'r ymarfer yma'n edrych ar sut gall sain effeithio ar y gwrandawr.

- ❖ Cyn y sesiwn, dewiswch dri neu bedwar trac sain cerddoriaeth gwahanol – ceisiwch amrywio steil y rhain cymaint â phosib.
- ❖ Gofynnwch i'r plant wrando ar bob un ohonyn nhw yn eu tro. Dylai'r gwrandawr ysgrifennu'r effaith mae pob trac yn ei chael arnyn nhw – rydyn ni'n awgrymu defnyddio nodiadau *post-it* a'u hannog nhw i dynnu llun o wyneb arno i ddangos sut maen nhw'n teimlo. Yna, gellid glynu hwn i wal neu ddarn arall o bapur sydd wedi'i ddynodi i'r trac.
- ❖ Dylech ailadrodd hyn tan i chi orffen yr holl draciau.
- ❖ Dylai'r plant archwilio canlyniadau eu gwrando a thrafod pam fod pobl yn teimlo'r ffordd oedden nhw. A oedd oherwydd ei fod: yn araf / yn gyflym / yn uchel / yn isel / yn swnllyd / yn dawl?
- ❖ Gallech gyflwyno rhywfaint o derminoleg cerddoriaeth yma, fel tempo, traw a rhythm.
- ❖ Trafodwch y lleoliadau neu'r sefyllfaoedd dramatig y mae'r traciau gwahanol hyn yn eu dwyn i gof.

***Cam ymhellach:***

Gofynnwch i'r plant pa swydd hoffen nhw ei gwneud, a pham.

Os ydych chi wedi trefnu ymweliad â'r Sherman, gallech lunio rhestr o gwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r arbenigwyr pan fyddwch chi'n mynd yno i edrych o gwmpas.